



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



menter
a busnes

Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru

Sefydlu coed mewn rhedyn trwchus

Adroddiad terfynol

Mawrth 2023



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Baidroddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1. Cyflwyniad

Prif bwrpas y prosiect hwn oedd archwilio a allai gweithio'r tir yn fecanyddol ddarparu dull o leihau tyfiant rhedyn ddigon i ganiatáu i goed gael eu sefydlu'n llwyddiannus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig plannu 40,000 hectar o goetir fel rhan o'i strategaeth newid hinsawdd. Mae tir rhedyn yn darparu lleoliad amlwg ar gyfer llawer o'r coetir hwn gan fod ganddo werth amaethyddol isel ac yn gyffredinol nid ystyrir iddo fod o werth cadwraethol mawr. Ar ben hynny, mae priddoedd lle mae rhedyn yn tyfu'n dda yn dda ar gyfer tyfiant coed.

Y prif ddull o reoli rhedyn ar lethrau serth yw drwy chwistrellu chwynladdwr o'r awyr â hofrennydd. Gall hyn fod yn effeithiol iawn yn y tymor byr ond mae hefyd yn ddull problemus. Mae pryderon diogelwch digonol nes bod y cynnyrch (Azulox) wedi'i dynnu'n ôl yn swyddogol, er ei fod yn parhau i fod ar gael trwy randdirymiaadau dros dro. Cofnodwyd sawl achos o lygru cyrsiau dŵr a halogiad cyflenwadau dŵr. Mae bygythiad hefyd o ddifrod ystlysol i lystyfiant tir cyfagos. Nid yw chwistrellu yn opsiwn sydd ar gael mewn nifer o amgylchiadau: ar dir organig, ger cyrsiau dŵr neu gyflenwadau dŵr, a ger safleoedd ar gyfer cadwraeth natur.

Mae aredig yn torri rhisomau rhedyn i fyny ac yn gallu lleihau bywiogrwydd y planhigyn yn sylweddol. Pwrpas y prosiect hwn oedd archwilio'r potensial i ddefnyddio gweithio'r tir fel dull rheoli cyn plannu. Edrychodd y prosiect ar aredig neu drin stribedi gan ddefnyddio gwahanol ddarnau o offer a phlannu amrywiaeth o rywogaethau coed. Yna cafodd y twf a'r marwolaethau dilynol eu monitro dros dri thymor. Hefyd, aseswyd torri neu sathru'r rhedyn ar ôl plannu.

Roedd mesurau i frwydro yn erbyn pandemig Covid mewn grym ar gyfer llawer o'r prosiect a chafodd hyn effaith ar yr ystod o arbrofion yr oedd yn bosibl eu cynnal ac ar rywfaint o'r gwaith monitro. Roedd gaeaf 2020 yn eithriadol o wlyb gyda Chwefror 2020 y mis Chwefror gwlypaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru (a'r DU). Cafodd hyn effaith negyddol ar yr arbrofion hefyd.

2 Methodoleg

2.1 Safleoedd

Roedd dau safle arbrofol

Nannerth Fawr, Rhaeadr:


Uchder: 280-300m

Llethr: 35-40%

Wynebu: De de-ddwyrain

Uchder y rhedyn: 1.7m

Ardal a blannwyd: 1 ha



Ffigur 1: Awyrlun o safle Nannerth. Y polygon coch yw'r ardal a blannwyd yn 2020; y polygon glas yw'r ardal a blannwyd yn 2021.

Hafodwen, Talerddig


Uchder: 300-340m

Llethr: 50-80%

Wynebu: De de-ddwyrain

Uchder y rhedyn: 1.8 m

Ardal a blannwyd: 0.75 ha.



Ffigur 2: Awyrlun o safle Hafodwen. Mae'r polygon coch yn dangos yr ardal a blannwyd yn 2020

2.2 Arbrofion gweithio'r tir

Gostyngwyd yr amrywiaeth o dechnegau trin o'r cynllun gwreiddiol. Ni ddigwyddodd yr aredig ar dractor yn bennaf oherwydd Covid. Roedd y contractwr â'r ysgraffiniwr coedwigaeth o'r farn bod y tir yn Hafodwen yn rhy serth i weithredu'n ddiogel.

Cynhaliwyd yr arbrofion trin yn Nannerth.

2.2.1 Peiriant palu Robocut

Mae'r McConnell Robocut yn uned bŵer 40hp â thraciau a reolir o bell. Roedd hwn wedi'i osod â pheiriant palu cylchdro ar y blaen gyda lled gweithio o 1450mm a dyfnder palu o 15cm.



Ffigur 3: Robocut gydag atodiad peiriant palu

2.2.2 Atodiad peiriant palu ar gloddiwr bach

Cloddiwr bach Kubota 6T gydag atodiad peiriant palu Minitilla Exac-1 sy'n cynnwys 3 phen palu echel fertigol sy'n cael eu gyrru'n hydrolig gyda dyfnder treiddio effeithiol o hyd at 25cm. Roedd lled y sribed wedi'i drin oddeutu 100cm.

2.2.3 Bwced cloddiwr bach

Defnyddiwyd bwced 50cm ar gloddiwr bach 6T i gloddio sribed tua 1.2m o led i lawr i ddyfnder o tua 30cm. Rhoddwyd cynnig ar sribedi parhaus a safleoedd plannu unigol. Mae'r olaf yn debyg i'r dechneg "pentyrru" safonol.



Ffigur 4: Atodiad peiriant palu Minitilla

2.3 Plannu

Dewiswyd pedair rhywogaeth o goed: bedw llwyd, criafol, derw digoes, a phefrwydd Sitka. Roedd y trawsblaniadau yn 45-60cm o uchder. Fe'u plannwyd mewn rhesi sy'n berpendicwlar i'r gyfuchlin gydag addasiad llym o rywogaethau. Plannwyd y rhywogaeth gollddail â ffyn a throell amddiffynnol. Roedd y bwllch rhwng y coed oddeutu 2.5m rhwng rhesi ac o fewn y rhes. Plannwyd tua 1200 o goed yn Hafodwen a thua 2000 yn Nannerth.

2.4 Torri a gwastatáu rhedyn

Ychwanegwyd y rhan hon o'r arbrawf yng ngoleuni absenoldeb rhai o'r technegau trin. Roedd y rhedyn naill ai'n cael ei strimio neu ei sathru. Roedd llwybr oddeutu 1m o led wedi'i strimio neu ei sathru. Roedd rheolaethau heb eu trin yn sawl rhes o led i leihau unrhyw effaith ymylol.

3. Canlyniadau

3.1 Addasrwydd peiriannau

Roedd y safleoedd a ddewiswyd yn heriol i'r rhan fwyaf o'r offer a ddefnyddiwyd. Er nad oedd aredig ar dractor wedi cael ei wneud, roedd yn amlwg wrth geisio trefnu'r gwaith, y byddai anawsterau ymarferol ar rai safleoedd. Byddai angen trac mynediad o leiaf 3m o led ac roedd problemau posibl hefyd yn ymwneud â throï ar waelod y llethr oherwydd y serthrwydd.

Mae'r potensial ar gyfer defnyddio ysgraffiniwr coedwigaeth wedi'i gyfyngu i lethrau llai serth.

Nid oedd y peiriant Robocut yn addas iawn i weithio i fyny ac i lawr y llethr ac achosodd hyd yn oed afreoleidd-dra bach ar y llethr broblemau ac, mewn un achos, mân ddifrod i'r peiriant. Yn bwysicach fyth, roedd dyfnder y trin wedi'i gyfyngu i oddeutu 15cm. Nid oedd hyn yn ddigon dwfn i chwalu'r mwyafrif o'r rhisomau.

Dim ond yn Nannerth y cynhaliwyd yr arbrofion gyda'r cloddiwr bach. Roedd y llethr sydd ychydig yn fwy serth yn Hafodwen yn rhy serth i'r peiriant gynnal gafael yn ddiogel. Dylid nodi bod yr ymgais wedi'i wneud ar ôl gaeaf eithriadol o wlyb.

3.2 Effaith triniaethau ar uchder

Gall triniaeth ddarparu budd clir o ran twf. Mae'r gwahaniaeth yn amlwg ym mlwyddyn gyntaf y driniaeth ac fe'i cynhelir wedi hynny. Mae Ffigur 5 yn dangos dosbarthiad uchder pob un o'r pedair rhywogaeth dan y gwahanol driniaethau ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Yr effeithiau amlycaf ym Mlwyddyn 1 oedd y coed bedw a'r coed criafol. Cafodd hyn ei gynnal yn y blynyddoedd dilynol ar gyfer y coed a blannwyd yn 2020. Fodd bynnag, roedd effaith strimio ar dwf y coed a blannwyd yn 2021 (Nannerth yn unig) yn llai, fel y dangosir yn Ffigur 6.

Cofnodwyd yr uchder mwyaf o goed bedw lle'r oedd y rhes wedi cael ei gweithio'n barhaus gan ddefnyddio'r peiriant palu ar y cloddiwr bach.


Yr uchder canolrif ar gyfer coed bedw o ystyried unrhyw fath o baratoi gyda pheiriant palu oedd 275 cm o'i gymharu â 161 cm ar gyfer y lleiniau rheoli. Roedd strimio neu sathru hefyd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol gydag uchder canolrif o 216 cm.

Ymatebodd y coed criafol mewn modd tebyg, er bod yr effaith yn llai cyson rhwng y ddau safle: Ni ddangosodd Nannerth fawr o wahaniaeth, ond roedd yr effaith yn Hafodwen yn llawer mwy amlwg.


Ar gyfer coed derw digoes, roedd effaith y triniaethau yn llawer llai. Dim ond gwahaniaeth ystadegol oedd yn Nannerth a dim ond yn y lleiniau a gafodd eu trin â pheiriant palu yr oedd hyn. Roedd y gwahaniaeth mewn uchder yn gymharol fach.

Nid oedd y pefrwydd Sitka yn perfformio'n dda waeth beth oedd y driniaeth a'r safle.


Dangosir canolrif uchder y coed sydd wedi goroesi dan driniaethau amrywiol yn Ffigur 8.



Ffigur 5: Uchder (cm) y coed a gofnodwyd ym mis Tachwedd 2020 (data o Hafod wen a Nannerth gyda'i gilydd). Mae lled y plot ffidil yn cynrychioli nifer y coed ar y cynnydd uchder hwnnw. Mae'r llinellau llorweddol du yn dangos ffiniau'r chwarterel.



Ffigur 6: Uchder (cm) y coed a blannwyd yn 2020 a 2021 erbyn diwedd eu hail dymor o dwf. Mae lled y plot ffidil yn cynrychioli nifer y coed ar y cynnydd uchder hwnnw. Mae'r llinellau llorweddol du yn dangos ffiniau'r chwarter.



Ffigur 7: Uchder (cm) y coed a blannwyd yn 2020 erbyn diwedd 2022. Mae lled y plot ffidil yn cynrychioli nifer y coed ar y cynnydd uchder hwnnw. Mae'r llinellau llorweddol du yn dangos ffiniau'r chwarterel.

Species	Site	Control/Treated	Planting Year	Sample size	Median Ht Yr 1(cm)	Median Ht Yr2 (cm)	Median Ht Yr 3 (cm)	P value
Downy Birch	Nannerth	Control	2020	97	73	117	161	a***
	Nannerth	Treated Any	2020	130	96	168	264	a***
	Nannerth	Treated Rotovate	2020	73	109	189	275	
	Nannerth	Treated Veg	2020	57	84	152	216	
	Nannerth	Control	2021	34	38	41		
	Nannerth	Treated Veg	2021	52	61	64		
	Hafodwen	Control	2020	69	77	123	170	e***
	Hafodwen	Treated All	2020	242	88	142	210	e***
Sessile Oak	Nannerth	Control	2020	116	33	52	55	b**
	Nannerth	Treated Any	2020	124	29	48	65	b**
	Nannerth	Treated Rotovate	2020	66	28	53	67	
	Nannerth	Treated Veg	2020	59	30	45	55	
	Nannerth	Control	2021	44	32	34		
	Nannerth	Treated Veg	2021	51	43	57		
	Hafodwen	Control	2020	68	25	51	57	f
	Hafodwen	Treated Veg	2020		30	55	66	f
Rowan	Nannerth	Control	2020	100	48	76	81	c***
	Nannerth	Treated Any	2020	124	55	95	115	c***
	Nannerth	Treated Rotovate	2020	72	61	108	162	
	Nannerth	Treated Veg	2020	52	49	84	79	
	Nannerth	Control	2021	39	65	72		
	Nannerth	Treated veg	2021	59	60	73		
	Hafodwen	Control	2020	51	47	88	144	g***
	Hafodwen	Treated Veg	2020	168	74	142	200	g***
Sitka Spruce	Nannerth	Control	2020	99	56	77	82	d**
	Nannerth	Treated Any	2020	118	54	84	98	d**
	Nannerth	Treated Rotovate	2020	63	56	85	104	
	Nannerth	Treated Veg	2020	55	59	82	96	
	Nannerth	Control	2021	46	38	51		
	Nannerth	Treated Veg	2021	42	36	41		
	Hafodwen	Control	2020	86	57	76	100	
	Hafodwen	Treated Veg	2020	149	60	77	94	

Ffigur 8: Uchder canolrif y coed sydd wedi goroesi dan driniaethau gwahanol. Mae'r lleiniau lle defnyddiwyd peiriant palu wedi'u cyfuno i un categori ac yn yr un modd y triniaethau sy'n cynnwys strimio neu sathru (mae'r categori wedi'i labelu "llysiâu wedi'u trin" yn y tabl). Mae'r golofn derfynol yn dangos dadansoddiad ystadegol o wahanol barau o ganlyniadau. Mae *** yn nodi $P < 0.01$, mae ** yn nodi $P < 0.05$.

Cynhaliwyd arbrofion strimio 2022 yn Nannerth ddechrau mis Mehefin, dechrau mis Mai a chanol mis Awst. Nid oedd yn ymddangos bod y dyddiad strimio yn cael effaith sylweddol ar uchder canolrif y coed ar ddiwedd y tymor. Nid oedd faint o ddata a gasglwyd yn ddigonol ar gyfer dadansoddiad ystadegol llawn. Mae'r data'n awgrymu, ar gyfer y coed criafol, bod y strimio cynnar yn rhoi hwb cryf i'r uchder a gafwyd.

3.3 Effaith triniaethau ar oroesi

Gellir dadlau bod goroesi yn fesur pwysicach o lwyddiant y driniaeth na'r uchder, er ei bod yn amlwg bod y ddau yn gysylltiedig. Mae Ffigur 9 isod yn dangos y marwolaethau cronus yn ôl y driniaeth.

Roedd gwahaniaethau sylweddol mewn marwolaethau ar gyfer rhai ymyriadau. Er enghraifft, hanerwyd cyfradd marwolaethau'r coed criafol yn Nannerth yn y safleoedd lle defnyddiwyd peiriant palu, strimio neu sathru. Ond nid oedd llawer o wahaniaeth yng nghyfradd marwolaethau'r lleiniau coed criafol a oedd yn cael eu trin a'u rheoli yn Hafodwen. Yma roedd y gyfradd marwolaethau yn llawer is.

Mae'r patrymau amrywiad yn eithaf cymhleth ac mae gwahaniaethau mawr rhwng y safleoedd ar gyfer rhai rhywogaethau, er gwaethaf tebygrwydd ymddangosiadol y safleoedd. Nid oedd ymateb y coed o'r ddau dymor plannu yn Nannerth yn debyg.

Species	Site	Control/Treated	Planting Year	Sample size	cumulative mortality Year 1	cumulative mortality Year 2	cumulative mortality Year 3
Downy Birch	Nannerth	Control	2020	97	4%	14%	39%
	Nannerth	Treated Any	2020	130	2%	11%	26%
	Nannerth	Treated Mech	2020	73	1%	1%	16%
	Nannerth	Treated Veg	2020	57	3%	22%	27%
	Nannerth	Control	2021	34	29%	62%	
	Nannerth	Treated Any	2021	52	2%	40%	
	Hafodwen	Control	2020	69	1%	7%	30%
	Hafodwen	Treated Veg	2020	242	3%	7%	32%
Sessile Oak	Nannerth	Control	2020	116	11%	18%	33%
	Nannerth	Treated Any	2020	124	10%	23%	41%
	Nannerth	Treated Mech	2020	66	9%	23%	32%
	Nannerth	Treated Veg	2020	59	10%	45%	55%
	Nannerth	Control	2021	44	2%	13%	
	Nannerth	Treated	2021	51	0%	2%	
	Hafodwen	Control	2020	68	31%	37%	43%
	Hafodwen	Treated Veg	2020		24%	40%	62%
Rowan	Nannerth	Control	2020	100	5%	19%	31%
	Nannerth	Treated Any	2020	124	2%	8%	16%
	Nannerth	Treated Mech	2020	72	4%	8%	17%
	Nannerth	Treated Veg	2020	52	0%	8%	15%
	Nannerth	Control	2021	39	0%	5%	
	Nannerth	Treated	2021	59	0%	5%	
	Hafodwen	Control	2020	51	6%	8%	14%
	Hafodwen	Treated Veg	2020	168	2%	6%	12%
Sitka Spruce	Nannerth	Control	2020	99	10%	21%	51%
	Nannerth	Treated Any	2020	118	9%	25%	43%
	Nannerth	Treated Mech	2020	63	0%	11%	21%
	Nannerth	Treated Veg	2020	55	20%	33%	55%
	Nannerth	Control	2021	46	20%	74%	
	Nannerth	Treated	2021	42	2%	38%	
	Hafodwen	Control	2020	86	9%	15%	40%
	Hafodwen	Treated Veg	2020	149	7%	13%	33%

Ffigur 9: Marwolaethau *crannus*. Mae'r lleiniau lle defnyddiwyd peiriant palu wedi'u cyfuno i un categori ac yn yr un modd y triniaethau sy'n cynnwys strimio neu sathru (mae'r categori wedi'i labelu "llyisiau wedi'u trin" yn y tabl).

4 Trafodaeth

4.1 Gweithio'r tir yn fecanyddol

Mae canlyniadau'r arbrofion yn awgrymu nad yw gweithio'r tir yn ddewis addawol ar gyfer paratoi safleoedd rhedyn ar gyfer plannu coed er ei fod yn amlwg yn gwella goroesiad. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o safleoedd rhedyn yn debygol o fod yn rhy serth i ddefnyddio peiriannau'n ddiogel neu'n effeithlon. Ar safleoedd llai serth, efallai y bydd rhywfaint o botensial ar gyfer aredig. Mae problemau posibl o ran erydiad, yn enwedig os caiff y safle cyfan ei drin.

Nid yw defnyddio'r cloddiwr i gynhyrchu pentyrrau lleol, hyd yn oed y rhai sy'n fwy na'r rhai a ddefnyddir yn nodweddiadol wrth bentyrru, yn debygol o fod yn effeithiol. Mae'r rhisomau cyfagos yn dal i gynhyrchu twf trwchus.

4.2 Marwolaethau a thwf

Mae tystiolaeth dda bod y gyfradd twf yn cael ei gwella os caiff y safle ei baratoi drwy weithio'r tir neu os caiff y rhedyn ei dorri neu ei sathru wedyn. Ond dim ond gyda choed criafol a bedw y mae'r effaith yn sylweddol. Mae cyfradd marwolaethau ar gyfer y ddwy rywogaeth hyn hefyd yn cael ei lleihau'n sylweddol yn dilyn triniaethau.

Mae'r ffigurau ar gyfer marwolaethau yn syndod. Efallai y byddai rhywun wedi disgwyl y byddai cyfradd y marwolaethau yn gostwng dros flynyddoedd olynol. Nid oedd hyn yn wir. Cynyddodd cyfradd y marwolaethau hyd yn oed yn y drydedd flwyddyn mewn rhai achosion. Ar y safle cyntaf, mae hyn yn wrthgyferbyniol. Os yw'r planhigyn yn goroesi, ac yn tyfu, efallai tybir y bydd y planhigyn mwy, mwy sefydledig hwn wedi'i arfogi'n well i oroesi gyda phob blwyddyn ddilynol. Un esboniad yw nad diffyg golau yw'r ffactor hollbwysig sy'n pennu goroesiad ond sut caiff y coed eu claddu o dan y llaesod rhedyn. Yn yr arsylwadau ar gyfer Blwyddyn 3 (2022) roedd nifer o enghreifftiau o goed a oedd wedi cael eu gwthio drosodd gan y rhedyn ac a fu farw wedyn. Roedd nifer o enghreifftiau hefyd, yn enwedig ar gyfer y coed bedw, lle'r oedd y blaendyfiant wedi cael ei dorri i ffwrdd.

Mae'n bosib bod y coed criafol a'r bedw wedi goroesi'n well yn yr ardaloedd a driniwyd yn bennaf oherwydd bod yr amodau hyn wedi arwain at blanhigion mwy cadarn a oedd yn fwy abl i wrthsefyll cael eu sathru gan y rhedyn a oedd yn cwmpo.

Nid oedd y data eithaf cyfyngedig o'r arbrofion strimio yn Nannerth yn dangos unrhyw berthynas amlwg rhwng amseriad y strimio a chyfradd twf y coed. Ni ellid asesu effaith y gwahanol ddyddiadau strimio ar farwolaethau o fewn amserlenni'r prosiect. Os mai claddu'r coed ifanc yw effaith amlycaf rhedyn, yna gallai strimio (neu sathru) ar ddiwedd y tymor fod yr amser mwyaf effeithiol ar gyfer ymyrraeth. Mae hyn yn deilwng o ymchwiliad pellach.

4.3 Adfywio naturiol

Y gobaith oedd y gallai'r gwaith o baratoi'r tir hefyd wneud y safle'n barod i sefydlu coed drwy hadu'n naturiol. Mae gan goed bedw, yn benodol, dueddiad i sefydlu ar briddoedd mwynol noeth. Mae safleoedd o blanhigfeydd conwydd wedi'u llwyrwgwmpo yn aml yn cael adfywiad naturiol toreithiog o goed bedw hyd yn oed yn absenoldeb ffynhonnell fawr o hadau lleol. Yn ymarferol, nid oedd llawer o dystiolaeth o adfywio naturiol yn yr ardaloedd lle defnyddiwyd peiriant palu yn Nannerth. Y prif adfywiad a oedd yn bresennol oedd glaswellt yng nghyffiniau'r coed bedw ar ymyl ddeheuol y safle.

5. Casgliadau

1. Er gwaethaf y llai o ddata arbrofol oherwydd Covid, mae'r astudiaeth hon yn awgrymu nad yw tyfu rhedyn yn debygol o fod yn ddewis addawol. Mae'n debyg mai llethr uwchben 50% yw'r terfyn diogel ar gyfer gweithio. Mae'r rhan fwyaf o dir wedi'i orchuddio â rhedyn yn debygol o fod yn rhy serth i'r rhan fwyaf o offer. Byddai'n rhaid i'r stribedi wedi'u trin fod yn eang er mwyn osgoi effaith tyfiant egni'ol rhedyn cyfagos. Aredig neu droi'r safle yn llwyr fyddai'r opsiwn mwyaf ymarferol a gallai hyn arwain at erydiad a phroblemau amgylcheddol eraill.
2. Mae gan blannu mewn rhedyn trwchus (gan ddefnyddio ffyn a throellau) yn absenoldeb torri neu sathru gyfradd sefydlu gwael. Mae colledion cronus sylweddol yn parhau am o leiaf dair blynedd ar ôl plannu.
3. Y mwyaf gwydn o'r pedair rhywogaeth a ddewiswyd oedd y coed criafol. Roedd y coed bedw hefyd yn weddol wydn. Dylid ffafrio'r rhywogaethau hyn wrth blannu safleoedd rhedyn problemus.
4. Mae'n ymddangos bod effaith y rhedyn o ran gwthio drosodd a mygu yn fwy o broblem na'r cysgodi uniongyrchol. Nid yw coed sy'n cael eu plannu mewn rhedyn heb unrhyw gymorth yn debygol o oroesi. Dylai unrhyw gymorth sy'n helpu i atal y goeden rhag cael ei gwthio drosodd helpu i leihau marwolaethau. Dylai unrhyw ffyn a ddefnyddir fod yn gadarn iawn.
5. Mae effaith amseru strimio a/neu sathru, ar oroesiad coed yn bwnc ymchwil y byddai'n werth edrych arno yn y dyfodol.